Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dai

6 Chwefror 2023

Yn bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor AS | Senedd Cymru (Cadeirydd) |
| Altaf Hussain AS | Senedd Cymru |
| Ruth Power | Shelter Cymru |
| Jennie Bibbings | Shelter Cymru |
| Matthew Palmer | Shelter Cymru |
| Wendy Dearden | Shelter Cymru |
| Ross Thomas | Tai Pawb |
| David Rowlands | Tai Pawb |
| Matthew Dicks | CIH Cymru |
| Cerys Clark | CIH Cymru |
| Y Cynghorydd Alun Llewelyn | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Ryland Doyle | Swyddfa Mike Hedges AS |
| Robert Smith | Prifysgol Caerdydd |
| Tim Thomas | Propertymark |
| Tim Crahart | Homeshare Wales |
| Becky Ricketts | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Joy Williams | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Stephanie Rogers-Lewis | Cyngor Caerdydd |
| David Kirby | Y Sefydliad Adeiladu Siartredig |
| Katie Dalton | Cymorth Cymru |
| Manon Roberts | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Andy Thompson | Cyngor Sir Powys |
| Zak Weaver | Swyddfa Sam Rowlands AS |
| Steve Porter | Cyngor Abertawe |
| Jasmine Harris | Crisis |

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Y Cynghorydd Linda Davies Evans | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Sara Burch | Cyngor Sir Fynwy |
| Amy Lee Pierce | Y Wallich |
| James Radcliffe | Platfform |
| Y Cynghorydd John Morgan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Y Cynghorydd Andrea Lewis | Cyngor Abertawe |
| Matt Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Nichola Zerk | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Y Cynghorydd Rhys Goode | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Donna Oldfield | Sipsiwn a Theithwyr Cymru |
| Faye Patton | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Bonnie Williams | Housing Justice Cymru |
| Y Cynghorydd James Clarke | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Y Cynghorydd David Daniels | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Steven Bletsoe | Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl |
| Bryony Haynes | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Louisa Devonish | |
| Gareth Lyn Montes | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Hugh Russell | Cwmpas |
| Jenny Russon | Sefydliad Elusennol MCS |
| Thomas Hollick | Y Wallich |
| Natalie Thompson | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Carolyn Johnstone | Byddin yr Iachawdwriaeth |
| Debbie Thomas | Crisis |

| Eitem ar yr agenda | Nodiadau |
|---|---|
| Croeso gan y Cadeirydd | Croesawodd Mabon ap Gwynfor AS bawb i'r cyfarfod cyn amlinellu agenda'r sesiwn a throsglwyddo'r awenau i'r cyflwynwyr. |
| Cyllideb 2023 Llywodraeth Cymru: | Bydd cyflwyniad pob siaradwr ar gael fel dogfen ar wahân. |

| | |
|---|---|
| Y Goblygiadau ar gyfer Tai – cymorth, cyflenwad a landlordiaid cymdeithasol | Trafododd **Katie Dalton, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru** yr angen i gynyddu'r Grant Cymorth Tai yn y gyllideb sydd i ddod, a galwodd ar Aelodau o'r Senedd i godi'r materion yn y ddadl ar y gyllideb ddrafft.<br><br>Yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24, mae cyllid Grant Cymorth Tai yn £166.7 miliwn. Dyma'r un faint ag yr oedd yn 2022/23 a 2021/22, er gwaethaf y pwysau cynyddol ar y system ddigartrefedd ac effaith chwyddiant. Mae'r sector yn bryderus iawn am y setliad hwn ac wedi annog Gweinidogion i ailystyried cyn cyhoeddi'r gyllideb derfynol.<br><br>Darparodd **Cerys Clark, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Sefydliad Tai Siartredig Cymru** drosolwg o oblygiadau cyllidebol o ran datgarboneiddio tai cymdeithasol a diogelwch adeiladau.<br><br>Er bod y Sefydliad yn croesawu'r ymrwymiad parhaus i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi cymdeithasol carbon isel, mae pryderon ynghylch diffyg cyllid i ddwyn datgarboneiddio yn ei blaen yng Nghymru. Mae angen eglurhad hefyd o'r cyllid ar gyfer SATC 2023 sydd heb gael ei gynnwys yn y gyllideb ddrafft.<br><br>Trafododd **Bryony Haynes, Rheolwr Polisi a Materion Allanol, Cartrefi Cymunedol Cymru** yn ehangach oblygiadau'r gyllideb ddrafft i gymdeithasau tai.<br><br>Mae Cartrefi Cymunedol Cymru'n falch o weld buddsoddi'n parhau mewn cartrefi fforddiadwy newydd i'w rhentu, gyda £330 miliwn ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn y gyllideb ar gyfer 2023/24, ac mae'r gronfa Cyfalaf Trosiannol wedi bod yn enghraifft i'w chroesawu o gyllid ystwyth sydd â ffocws, a dull y dylid ei gyflwyno'n ehangach.<br><br>Er bod y cyfle cyllidol yno i ddarparu cartrefi newydd, mae anghydbwysedd rhwng hyn a'r her ariannol enfawr i ôl-osod cartrefi presennol yn y sector rhentu cymdeithasol. |
| Fforwm | Cyfeiriodd **y Cynghorydd Andrea Lewis** at y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a'r cydbwysedd o ran mynd i'r afael â safonau llety tra hefyd yn dod o hyd i ateb i heriau digartrefedd, y diffyg llety sydd ar gael, a'r niferoedd cynyddol sydd mewn llety dros dro. A oes angen i derfyn amser datgarboneiddio gael ei ymestyn? A fyddem yn elwa ar saib mewn gweithgaredd wrth i'r dechnoleg ddatblygu a meddwl am dechnolegau eraill?<br><br>Siaradodd **Andy Thompson** am y ffocws ar ddatgarboneiddio yn y sector cymdeithasol, a gofynnodd tybed a yw tenantiaid yn teimlo fel testun arbrawf ar gyfer technolegau newydd. Yn y cyfamser, mae perchen-feddianwyr yn canolbwyntio ar dalu eu morgeisi, nid buddsoddi yn eu heiddo.<br><br>Mynegodd **y Cynghorydd David Daniels** bryderon am y sefyllfa ddifrifol sy'n wynebu darparwyr cymorth a'u heriau recriwtio.<br><br>Awgrymodd **y Cynghorydd Andrea Lewis** y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol anfon llythyr at y Gweinidog yn amlinellu realiti'r sefyllfa ar lawr gwlad ac yn mynegi pryderon ynghylch annigonolrwydd cynigion y gyllideb ddrafft.<br><br>**Cam i'w gymryd: Cytunodd y cyfarfod i lythyr gael ei anfon at y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

| | |
|---|---|
| | Awgrymodd **Steve Bletsoe** ei bod yn rhaid inni fod yn ymwybodol o anghenion y sector rhentu preifat. Sut y gallwn ni gyflawni datgarboneiddio ar ben rheoliadau a deddfwriaeth newydd? Mae Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cenedlaethol yn cefnogi unrhyw arian ychwanegol i ddarparu cefnogaeth i denantiaid a hefyd y pot taliadau tai dewisol – mae'n fain ar bawb ar hyn o bryd.<br><br>Tynnodd **Jennie Bibbings** sylw at bryderon ynghylch nifer fach ond cynyddol y morgeisi sy'n cael eu hadfeddiannu, a rhoddodd fanylion am alwad Shelter Cymru am gyllid achub morgeisi pwrpasol. |
| Cloi'r cyfarfod | Diolchodd Mabon ap Gwynfor AS y bobl bresennol a'r siaradwyr.<br><br>Manteisiodd ar y cyfle i gydymdeimlo â Mark Drakeford ar golli ei wraig yn ddiweddar, ac â Carolyn Thomas ar golli ei mab.<br><br>Atgoffodd Mabon bawb y bydd y cofnodion ar gael gan Shelter Cymru maes o law a daeth â'r cyfarfod i ben. |
| Dyddiad y cyfarfod nesaf | **Dydd Llun 15 Mai 2023, 09.30-10.30 ar Teams** |